TREE O'CLOCK

I ddathlu Wythnos Goed Genedlaethol , mae cynllun Breathing Places gan y BBC wedi trefnu y weithgaredd uchod ar gyfer Dydd Sadwrn, 5 Rhagfyr rhwng 11am -12pm. Y bwriad ydy ceisio torri record byd Guinness am y nifer fwyaf o goed a blannwyd? o fewn un awr mewn sawl lleoliad gwahanol. Mae hyn yn ran o ymgyrch ehangach ledled y byd sef 'Plant for the Planet: Billion Tree campaign' sydd yn ymateb i'r her o gynhesu byd eang. Hefyd, drwy annog cymunedau i blannu coed rydym yn sicrhau cartref i nifer o adar a bydd bywyd gwyllt yn ffynnu- ynghyd â chreu amgylchedd ddeniadol! Roedd siop FOCUS DIY ym Mangor yn un o'r busnesau yn cynnig coed am ddim i'r cyhoedd. Cafwyd sawl glasbren a gobeithiwn blannu cerddinen, y fedwen arian, collen a'r ddraenen wen. Bydd ymgais Y Felin Daclus yn cael ei gynnal ar y Lon Las tu cefn i'r maes parcio cymunedol.

To celebrate National Tree Week, BBC's Breathing Places scheme has arranged the Tree O'Clock event – an attempt to break the world record for the most trees planted in one hour in multiple locations. This will take place this Saturday morning, 5 December .

It is part of a world wide campaign,' Plant for the Planet: a billion trees' , a response to the threat of global warming. By encouraging communities to plant trees we are providing a home for birds and a myriad of wildlife – as well as creating a more pleasant and attractive local environment. The FOCUD DIY shop at Bangor offered free saplings to the public and we will be planting some of the folllowing trees – Rowan, silver Birch, hazel and hawthorn. Y Felin Daclus will be planting trees adjacent to the Lon Las cycle track, behind the community car Park.